
DATBLYGU EIN DYFODOL



Cynllun Cryno 2017-2018

Fersiwn terfynol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro



DYMA EIN GWELEDIGAETH O OFAL DROS Y DENG MLYNEDD NESAF, A GRËWYD GAN Y BOBL SY'N DEFNYDDIO GWASANAETHAU CYFREDOL A'R RHAI SY'N EU DARPARU.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw un o sefydliadau GIG mwyaf y DU, gan ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i 475,000 o bobl sy'n byw yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.

Ein cenhadaeth yw 'Gofalu am Bobl, Cadw Pobl yn Iach', gyda'r weledigaeth bod siawns person o fyw bywyd iach yr un fath ble bynnag mae'n byw a phwy bynnag ydyw.

Ein strategaeth 'Llunio lles ein dyfodol' yw'r ffordd y bwriadwn wireddu'r weledigaeth. Drwy ymgysylltu â'r cyhoedd, staff a phartneriaid rydym wedi cytuno ar gyfres o egwyddorion a blaenoriaethau darbodus y gall y Bwrdd Iechyd eu dilyn er mwyn darparu gofal iechyd o ansawdd uchel cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Drwy fabwysiadu ymagwedd gytbwys i atab ein heriau byddwn yn canolbwyntio ar:

- **Ein Pobl gaeth**: sicrhau canlyniadau sydd o wirioneddol bwys ac sy'n ystyrlon i'r bobl rydym yn eu gwasanaethu.
- **Ein Blaenoriaethau Gwasanaeth**: cynnig gwasanaethau sy'n cyflawni gwelliannau i iechyd y boblogaeth y mae gan ein dinasyddion yr hawl i'w disgwyl.
- **Ein Cynlluniau Cynaliadwyedd**: cydgysylltu'r hyn a wnawn dros y bobl rydym yn eu gwasanaethu, gan anelu at ragoriaeth yn y ffordd rydym yn gweithio a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd gennym.
- **Ein Diwylliant**: gwall cydweithio ar draws y sectorau gofal, gwerthfawrogi pobl a defnyddio arloesedd ac ymchwil i wneud hwn yn lle gwych ar gyfer cleifion a staff.
- **Ein Gwerthoedd**: gofalu, cymryd cyfrifoldeb personol, ac ymddwyn a thrin eraill yn garedig a chydag ymddiriedaeth, uniondeb a pharch.

Am ragor o wybodaeth, ewch i www.biLly/SOFWHome

GOFALU AM BOBL, CADW POBL YN IACH

GIG Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro Cardiff and Vale University Health Board

ALLWEDD

DIGIDOL / RHYNGRWYD

CYFRIFIADURON ELECTRONIG A DDELIR GAN GLEIFION

GARTREF YN GYNTAF

CYMUNED

YSBYTY

CYFLAWNI GOFAL CYDGYSYLLTIEDIG YN SEILIEDIG AR 'GARTREF YN GYNTAF', OSGOI NIWED, GWASTRAFF AC AMRYWIADAU, GRYMUSO POBL A SICRHAU CANLYNIADAU SYDD O BWYS IDDYNT

©Scarlet Design Int. Ltd 2015

Rhagymadrodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Mae'r BIP, ynghyd â nifer o ddarparwyr gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol eraill yng Nghymru, yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i fodloni anghenion trigolion a phoblogaeth ehangach De Cymru mewn amgylchedd ariannol sy'n gynyddol heriol. Ni fu'r her o gomisiynu gwasanaethau sy'n gwella iechyd ein cymunedau a darparu gofal iechyd darbodus ac integredig ar gyfer poblogaeth leol sy'n tyfu, tra hefyd yn darparu gofal brys, dewisol a thrydyddol cynyddol gymhleth i fodloni'r galw yn lleol a rhanbarthol gyda'r adnoddau sydd gennym ar gael, erioed yn fwy.

Gan adeiladu ar ein strategaeth deng mlynedd, *Siapio ein Lles i'r Dyfodol*, rydym yn gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r heriau hyn yn y tymor hwy drwy ddatblygu glasbrint strategol trosfwaol ar gyfer ein system iechyd a gofal. Mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd, Cyngor Dinas Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg, rydym yn parhau i ddatblygu ein Cynghrair Menter Iechyd ar gyfer Trawsnewidiad Rhanbarthol (HEART) er mwyn adeiladu ar ein holl gryfderau ac alinio ein holl adnoddau. Rydym hefyd yn gweithio gyda'n byrddau iechyd cyffiniol lle bo hynny'n gwneud synnwyr er mwyn cynllunio a chyflenwi gwasanaethau ar draws ôl-troed rhanbarthol ehangach, Ein nod cyffredinol yw lleihau'r anghydraddoldebau iechyd sy'n bodoli ar draws ein cymunedau fel bod gan bawb y cyfle i fyw bywyd iach.

Yn y tymor byrrach, rydym yn cydnabod bod yr her ariannol sylweddol yn gofyn am ymrwymiad sydd wedi'i ganolbwyntio, ei gydlynu ac sy'n benderfynol i ddarparu gwasanaethau o fewn yr adnoddau sydd ar gael i ni. Yn 2016/17, gwnaethom adfywio'r dull (y strwythurau, prosesau a threfn lywodraethu) sydd ei angen arnom i nodi a rhoi ar waith y newidiadau angenrheidiol mewn comisiynu, effeithlonrwydd/cynhyrchiant darparwr, trawsnewid gwasanaeth a gafael a rheolaeth ariannol gan ganolbwyntio ar sicrhau sefyllfa gadarn a chynaliadwy.

Yn 2016/17 gwnaethom gynnydd sylweddol ar draws sawl maes:

- Mae ein datblygiadau gofal sylfaenol yn cefnogi'r newid yn y cydbwysedd gofal i ffwrdd oddi wrth ysbytai. Mae gennym Dimau Adnoddau Cymunedol sy'n gweithio saith diwrnod yr wythnos yn helpu i gefnogi rhyddhau amserol o ysbytai ac atal derbyniadau i ysbytai aciwt gan weithio ochr yn ochr ag ystod o wasanaethau a ddarperir gan yr awdurdodau lleol a'r trydydd sector i sicrhau ein bod yn cadw pobl yn ddiogel yn eu cartrefi;
- Gwnaethom gyflawni'r cynllun cytunedig ar gyfer amseroedd atgyfeirio hyd driniaeth, gyda lleihad sylweddol yn nifer y bobl sy'n aros am yn hwy na 52 a 36 wythnos am driniaeth; ac mae gennym gynlluniau ar gyfer cyflawni hyn yn barhaus;
- Gwnaethom gyflawni a/neu cawsom gymeradwyaeth ar gyfer nifer o gerrig milltir datblygu cyfalaf mawr megis cwblhau Hafan y Coed, yr Uned Iechyd Meddwl i Oedolion yn YALl, gwaith terfynol ar ail gam Ysbyty Plant Cymru, Labordy Catheter newydd yn lle'r hen un, cymeradwyaeth ar gyfer ailddatblygiad yr Uned Newydd-anedig ac Obstetreg a disodli'r;



- Gwnaethom welliannau ym mhrofiad y rheini sy'n defnyddio ein gwasanaethau, gyda'r adborth yn gadarnhaol ar y cyfan. Rydym hefyd wedi dysgu gan y pethau na wnaethom cystal ac mae ein Datganiad Ansawdd Blynyddol yn crynhoi'r materion hyn;
- Rydym yn gweld arwyddion o welliannau yn ein diwylliant gyda chyfraddau absenoldeb is, llai o weithdrefnau disgyblu a gwell ymgysylltiad staff; ac
- Er gwaethaf yr heriau ariannol parhaus a phwysau ar y gwasanaeth, llwyddom i wneud arbedion ariannol gwerth £23.1 miliwn er nad yw ein sefyllfa ariannol yn gynaliadwy - rydym yn gwario mwy o arian nag sydd ar gael i ni..

Mae'n amlwg bod llawer gennym i'w wneud ac mae ein cynllun ar gyfer 2017/2018 yn parhau i adeiladu ar ein hamcanion strategol ac yn dal i fod wedi'i seilio ar anghenion iechyd ein poblogaeth, gan ddarparu gwasanaethau o ansawdd a sicrhau mynediad amserol at wasanaethau. Ein cenhadaeth fel BIP yw **Gofalu am Bobl; Cadw Pobl yn Iach** gyda gweledigaeth bod **siawns unigolyn o fyw bywyd iach yr un fath lle bynnag y mae'n byw a phwy bynnag ydyw**.

Mae'r crynodeb hwn yn canolbwyntio ar ein blaenoriaethau allweddol dros y 12 mis nesaf wrth i ni barhau i weithredu ein strategaeth, gan fod yn realistig ynglŷn â'r hyn y gellir ei gyflawni gyda'r adnoddau cyfyngedig sydd gennym, tra'n sicrhau arfer gorau a chyflawni newidiadau cynaliadwy yn gyflym.

Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n partneriaid a'n cydweithwyr, ac rydym yn hyderus y gallwn, drwy ganolbwyntio ein hymdrechion a'n hadnoddau ar ddarparu gwasanaethau mewn perthynas ag anghenion ein poblogaeth, fodloni'r heriau a chyflawni yn erbyn ein blaenoriaethau.

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau darllen am ein cynlluniau ar gyfer 2017/18 ac y byddwch yn parhau i weithio gyda ni i'w cyflawni.

Maria Battle, Cadeirydd

Len Richards, Prif Weithredwr




Amdanom Ni

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP) ym mis Hydref 2009 ac mae'n un o'r sefydliadau GIG mwyaf yn y DU. Fel Bwrdd Iechyd, mae gennym gyfrifoldeb dros tua 482,000 o bobl sy'n byw yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg (o Trowbridge/Llaneirwg yn y Dwyrain i Lanilltud Fawr /Saint-y-brid yn y Gorllewin) gyda gwasanaethau sylfaenol a gofal cymunedol yn cael eu trefnu'n naw clwstwr gofal sylfaenol gan alluogi gweithio gwell gyda'n partneriaid ac ar draws ffiniau.

Mae ein cyfrifoldeb yn cynnwys hybu iechyd a swyddogaethau iechyd cyhoeddus yn ogystal â darparu gwasanaethau gofal sylfaenol lleol (meddygon teulu, deintyddion, optometryddion a fferyllwyr cymunedol) a rhedeg ysbytai, canolfannau iechyd, timau iechyd cymunedol a gwasanaethau iechyd meddwl. Gyda'i gilydd mae'r rhain yn darparu ystod lawn o wasanaethau iechyd ar gyfer ein trigolion lleol a'r rheini o ardaloedd pellach yng Nghymru a Lloegr sy'n defnyddio ein gwasanaethau arbenigol. Er mwyn darparu'r gwasanaethau hynod amrywiol a chymhleth hyn, rydym yn gwario dros £1.2 biliwn bob blwyddyn ac yn cyflogi tua 14,000 o staff.

Rydym yn Fwrdd Iechyd addysgu sydd â chysylltiadau agos gyda Phrifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol De Cymru. Gyda'n gilydd rydym yn hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o weithwyr clinigol proffesiynol gan ddatblygu ein harbenigedd a gwella ein canlyniadau clinigol.

Gellir gweld gwybodaeth fanwl am y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu a'r cyfleusterau lle'u cynhelir hwy ar wefan y Bwrdd Iechyd yn yr adran Ein Gwasanaethau a Chyfeiriadur Gwasanaethau Iechyd Lleol



Asesu Anghenion Iechyd ein Cymunedau Lleol

Maint a chyfansoddiad y boblogaeth	Mae ein poblogaeth yn: • tyfu'n gyflym, a rhagamcanir y bydd yn cynyddu gan 7.5% rhwng 2016-2026, sy'n uwch na chyfartaledd y twf ar draws Cymru a gweddill y DU. Bydd 35,000 yn rhagor o bobl yn byw yng Nghaerdydd dros y pum mlynedd nesaf a byddant angen mynediad at wasanaethau iechyd a lles. • cymharol ifanc yng Nghaerdydd o gymharu â gweddill Cymru, gyda'r gyfran o blant bach (0-4 oed) a'r boblogaeth ifanc oed gweithio (20-39 oed) yn uwch na chyfartaledd Cymru; mae hyn yn adlewyrchu'n rhannol y nifer sylweddol o fyfyrwyr sy'n astudio yng Nghaerdydd. • heneiddio - gyda chynnydd ym mhob grŵp oedran erbyn 2026, yn arbennig pobl 65-84 oed ac 85+ oed, mae cyfradd y twf ym Mro Morgannwg yn uwch nag yng Nghaerdydd. • amrywiol iawn o ran ethnigrwydd, yn arbennig o gymharu â llawer o weddill Cymru, gydag ystod eang o gefndiroedd diwylliannol ac ieithoedd yn cael eu siarad. Arabaidd, Pwyleg, Tsieinëeg a Bengaleg yw'r pedair iaith fwyaf cyffredin a siaredir wedi Saesneg a Chymraeg. Mae Caerdydd yn llety a chanolfan wasgaru ar gyfer ceiswyr lloches.
Ffactorau risg ar gyfer clefydau	Mae ymddygiadau sydd ddim yn iach sy'n cynyddu'r risg o glefydau yn endemig ymhlith oedolion yng Nghaerdydd a'r Fro: • Mae dwy ran o bump yn yfed mwy na'r canllawiau alcohol a argymhellir (42% Caerdydd, 42% Y Fro). • Nid yw tua drwy ran o dair yn bwyta digon o ffrwythau a llysiau (64% Caerdydd, 68% Y Fro). • Mae dros hanner dros bwysau neu'n ordew (52% Caerdydd, 53% Y Fro). • Nid yw tua thri chwarter yn cael digon o weithgaredd corfforol (72% Caerdydd, 71% Y Fro). • Mae tua un o bob pump yn ysmygu (19% Caerdydd, 18% Y Fro). Mae llawer o blant yng Nghaerdydd a'r Fro hefyd yn datblygu ymddygiadau sydd ddim yn iach: • Nid yw dwy ran o dair (67%) o rai dan 16 oed yn cael digon o weithgaredd corfforol. • Mae dros un rhan o dair (34%) o rai dan 16 oed dros bwysau neu'n ordew. Mae llygredd aer yn achos sylweddol salwch a marwolaethau, amcangyfrifir bod: • 143 o farwolaethau bob blwyddyn yng Nghaerdydd a 53 bob blwyddyn yn y Fro ymhlith y rhai dros 25 oed o ganlyniad i lygredd a grëwyd gan ddyn. Mae baich ac effaith llygredd aer amgylcheddol yn waeth gyda mwy o amddifadedd, a Chaerdydd sydd â'r llygredd aer gwaethaf a fesurir gan lefelau PM2.5 yng Nghymru. • Mae cysylltiad hirdymor â llygredd aer a grëwyd gan ddyn yn gyfrifol am 5.1% o'r holl farwolaethau yng Nghaerdydd a'r Fro.

Tegwch, anghydraddoldebau a phenderfynyddion ehangach iechyd	Mae anghydraddoldeb mawr mewn canlyniadau iechyd yng Nghaerdydd a'r Fro: • Mae disgwyliad oes ar gyfer dynion 8 mlynedd yn is yn yr ardaloedd mwyaf amddifadus o gymharu â'r rheini yn yr ardaloedd lleiaf amddifadus. • Mae nifer y blynyddoedd o fywyd iach yn amrywio hyd yn oed yn fwy, gyda bwlch o 19 mlynedd rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf amddifadus. • Mae cyfraddau marwolaethau cynamserol tua dwywaith a hanner yn uwch ymhlith yr ardaloedd mwyaf amddifadus o gymharu â'r lleiaf amddifadus Mae hefyd anghydraddoldebau arwyddocaol mewn 'penderfynyddion ehangach' iechyd, megis tai, incwm cartref ac addysg: • Er enghraifft, mae canran y bobl sy'n byw heb wres canolog yn amrywio yn ôl ardal yng Nghaerdydd a'r Fro o un mewn cant (1%) i un mewn wyth (13%). Mae anghydraddoldebau i'w gweld o ran sut a phryd y mae pobl yn cyrchu gofal iechyd: • Er enghraifft, mae'r nifer sy'n manteisio ar imiwneiddio yn amrywio'n sylweddol, gyda brechlynnau plant yn amrywio o 89% i 98% ar draws Caerdydd a'r Fro.
Iechyd gwael a defnydd gwasanaeth	Mae proffil clefydau yng Nghaerdydd a'r Fro yn newid: • Mae nifer y bobl sydd â dau salwch cronig neu ragor yng Nghaerdydd a'r Fro wedi cynyddu gan tua 5,000 o bobl yn y degawd diwethaf, ac mae disgwyl i'r patrwm hwn barhau. • Mae tua 1 ym mhob 7 (15%) o bobl yn teimlo bod eu gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu gan broblem iechyd hirdymor neu anabledd. • Ni chaiff nifer o bobl sydd â chyflyrau cronig eu diagnosio ac nid ydynt yn ymddangos ar gofrestri swyddogol. • O ganlyniad i newidiadau ym mhroffil oedran y boblogaeth a ffactorau risg ar gyfer clefydau, mae achosion newydd o ddiagnosis ar gyfer cyflyrau megis diabetes a dementia yn cynyddu'n sylweddol. • Mae tua 1 o bob 5 oedolyn yn ymweld â'u meddyg teulu o fewn cyfnod o ddwy wythnos; ac mae bron i dri chwarter yn ymweld â fferyllfa dros gyfnod o flwyddyn. • Mae'r cyfraddau uchaf o ran mynychu'r Adran Frys ymhlith pobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy amddifadus yng Nghaerdydd a'r Fro. • Mae'r cyfraddau oedi mewn trosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol bron ddwywaith mor uchel yng Nghaerdydd a'r Fro na chyfartaledd Cymru. • Clefyd y galon, canser yr ysgyfaint a chlefyd cerebrofasgwlaidd yw prif achosion marwolaeth ymhlith dynion a menywod. • Salwch a marwolaethau y gellir eu hatal – gellid osgoi llawer (ond nid y cyfan) o'r cyflyrau cronig mwyaf cyffredin ac achosion marwolaeth drwy wneud newidiadau i ymddygiadau cysylltiedig ag iechyd.



Heriau a Chyfleoedd

Mae ein cynllun ar gyfer 2017/18 yn disgrifio'n fanwl yr heriau niferus yr ydym yn eu hwynebu a sut yr ydym yn ymateb iddynt, ac yn nodi lle mae cyfleoedd i newid sut yr ydym yn gwneud pethau drwy roi cleifion wrth galon ailgynllunio ein gwasanaethau a defnyddio technoleg i gyflwyno ffyrdd newydd o ddarparu gofal.

Yr un rhai yw llawer o'r heriau a wynebir gennym ag a welir mewn gwasanaethau gofal iechyd eraill ar draws y byd datblygedig, ac maent yn cynnwys:

- nid yw pobl bob amser yn dewis ffyrdd o fyw iach;
- mae mwy o bobl yn byw gyda chyflwr iechyd hirdymor;
- nid yw'r ffordd yr ydym yn darparu gofal bob amser yn gyson ac nid yw chwaith bob amser yn rhoi'r canlyniad gorau i gleifion;
- mae angen i ni gynllunio a defnyddio ein gweithlu yn well er mwyn darparu'r math o ofal sydd ei angen ar ein cleifion; ac
- mae'r arian sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau iechyd yn crebachu ar adeg lle mae'r galw yn codi.

Fel Bwrdd Iechyd gellir crynhoi ein heriau penodol fel a ganlyn:

Heriau Gwasanaeth Cydbwyso darpariaeth gwasanaethau a gwella pa mor dda yr ydym yn eu darparu, tra hefyd yn gwneud y newidiadau hirdymor sydd eu hangen i fodloni anghenion newidiol y bobl yr ydym yn eu gwasanaethu (ein poblogaeth). Rydym yn wynebu heriau penodol sy'n gysylltiedig â sicrhau bod gennym wasanaethau ar waith i ymateb i anghenion poblogaeth sy'n tyfu'n gyflym gan fod poblogaeth Caerdydd yn tyfu'n gyflymach na bron unrhyw ddinas arall yn y DU. Newid y modd y darperir gwasanaethau (newid trawsnewidiol) a rheoli pwysau gweithredol.	**Heriau Seilwaith** Sicrhau bod ein hadeiladau a'n hoffer meddygol critigol a TG niferus yn addas at y diben. Adeiladwyd llawer o'n cyfleusterau nifer o flynyddoedd yn ôl ac nid yw ein rhaglenni cynnal a chadw wedi gallu cadw'n gyfoes â'r holl ofynion ar gyfer cadw'r adeiladau yn addas at y diben. Mae cyflwr rhai o'n hadeiladau yn effeithio ar sut yr ydym yn darparu gwasanaethau a gall gael effaith niweidiol ar brofiad cleifion o'r gofal a ddarperir gennym.
Heriau Gweithlu Ymgysylltu â staff er mwyn iddynt siapio'r newidiadau sydd angen i ni eu gwneud a'u cefnogi i wneud i'r newid ddigwydd. Bod yn rhywle lle mae pobl eisiau gweithio, yn arbennig mewn proffesiynau sydd â phrinder e.e. nyrsys a therapyddion.	**Heriau Ariannol** Derbyn swm yr arian yr ydym yn meddwl ein bod yn mynd i'w gael (tybiaethau ariannu). Defnyddio dim ond yr arian yr ydym yn ei dderbyn a chyflawni'r arbedion sydd angen i ni eu gwneud (cydbwyso ein cynllun ariannol).



Siapio ein Lles i'r Dyfodol - Ein Cynllun Strategol 2015 - 2025

Mae ein Cynllun ar gyfer 2017/18 wedi'i seilio ar yr egwyddorion sydd yn ein strategaeth *Siapio ein Lles i'r Dyfodol*, a gyhoeddwyd yn 2015, sy'n nodi sut y bwriadwn ddatblygu ein gwasanaethau er mwyn ymateb i anghenion newidiol ein poblogaeth a'r angen i leihau'r bwlch eang yn iechyd ein cymunedau. Mae ein cynllun ar gyfer eleni hefyd yn nodi sut yr ydym yn ymateb i nifer o ysgogwyr cenedlaethol, rhanbarthol a lleol megis Gofal Iechyd Darbodus, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; cydweithio gyda'n cydweithwyr mewn awdurdodau lleol a'r trydydd sector, a gweithio gyda chydweithwyr Bwrdd Iechyd ar draws rhanbarth De Ddwyrain Cymru.


Mae *Siapio ein Lles i'r Dyfodol* yn disgrifio ein gweledigaeth bod **siawns unigolyn o fyw bywyd iach yr un fath lle bynnag y mae'n byw a phwy bynnag ydyw**. Yn graidd iddi mae'r nod o ddarparu gofal cydgysylltiedig yn seiliedig ar fod gartref yn gyntaf, osgoi niwed, gwastraff ac amrywiad, grymuso pobl a rhoi'r canlyniadau sy'n bwysig iddynt.



Mae gennym raglen gyflenwi tymor hwy ar gyfer sicrhau bod dyheadau ein strategaeth yn cael eu cyflawni, a bu'n rhaid i ni flaenoriaethu'r gweithredu yr ydym yn ei wneud yn 2017/18 er mwyn datblygu ein hamcanion strategol.

Ein Hamcanion Lles

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd lles ar gyrff cyhoeddus i wneud pethau er mwyn gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, mewn modd sy'n bodloni'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy. Hysbyswyd ein strategaeth deng mlynedd, a ddatblygwyd drwy gydgynhyrchu gyda'n dinasyddion, cleifion a staff, gan gynnwys drafft y Ddeddf ac, o ganlyniad, mae amcanion strategol y BIP wedi'u halinio'n agos i'r nodau lles ac maent yn cynrychioli Amcanion Lles y BIP:



Ar gyfer ein Poblogaeth:	• Lleihau anghydraddoldebau iechyd; • Rhoi canlyniadau sy'n bwysig i bobl; a • Phawb yn cymryd cyfrifoldeb am wella ein hiechyd a'n lles.
Ein Blaenoriaethau Gwasanaeth:	• Cynnig gwasanaethau sy'n rhoi'r iechyd poblogaeth y mae gan ein dinasyddion yr hawl i'w ddisgwyl.
Cynaliadwyedd:	• Bod â system gofal heb ei gynllunio (brys) sy'n rhoi'r gofal cywir, yn y man cywir, y tro cyntaf; • Bod â system gofal wedi'i gynllunio lle mae'r galw a'r gallu yn gytbwys; a • Lleihau niwed, gwastraff ac amrywioldeb yn gynaliadwy gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i ni.
Diwylliant:	• Bod yn lle gwych i weithio a dysgu; • Cydweithio'n well gyda phartneriaid i ddarparu gofal a chefnogaeth ar draws sectorau, gan wneud y defnydd gorau o'n pobl a thechnoleg; a • Rhagori mewn addysgu, ymchwil, arloesedd a gwelliant a darparu amgylchedd lle mae arloesedd yn ffynnu.

Mae rhaglenni gwaith allweddol a ddisgrifir yn ddiweddarach yn y ddogfen hon wedi'u mapio i nodi eu cyfraniad i nodau lles ac i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni mewn modd sy'n defnyddio'r pum ffordd o weithio. Mae gan y BIP hefyd nifer o brosiectau cyffrous newydd ar y gweill sydd â'r nod o feddwl yn wahanol a gyda lens cenedlaethau'r dyfodol. Yn yr ychydig dudalennau nesaf rydym yn nodi'r meysydd allweddol lle byddwn yn gwneud cynnydd eleni, gan adeiladu ar gyflawniadau 2016/2017 fel y disgrifiwyd yn gynharach.

Ein Blaenoriaethau ar gyfer 2017/2018

Mae ein blaenoriaethau ar gyfer eleni yn ymwneud â'n bod ni'n gweithio'n galed i wella effeithlonrwydd ein gwasanaethau, gan wneud yn siŵr ein bod yn cael gwared ar unrhyw amrywiad nad sydd ei angen ac osgoi niwed i gleifion a sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau am bob punt a fuddsoddir yn ein gwasanaethau. Bydd angen i ni hefyd newid sut yr ydym yn cyflenwi ein gwasanaethau, gan roi'r claf yn wirioneddol wrth galon yr hyn a wnawn. Mae gan dechnoleg rôl bwysig i'w chwarae mewn agor cyfleoedd newydd yn y modd yr ydym yn darparu gofal a chefnogaeth i gleifion.

Rydym wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau ein bod yn gwneud y newidiadau angenrheidiol yn ystod 2017/18 ac mewn blynyddoedd i ddod fel y gallwn sicrhau bod ein gwasanaethau'n gynaliadwy o fewn yr adnoddau sydd ar gael i ni yn y dyfodol.

Mae tair ffrwd waith i'n rhaglen drawsnewid:

1. **Gwella gofal heb ei drefnu: sicrhau bod cleifion yn derbyn y gofal brys a gofal mewn argyfwng ar yr adeg gywir, yn y lle cywir, gan y person neu'r tîm cywir.**

   Rydym yn gwneud yn dda o ran asesu pobl a'u trin yn gyflym er mwyn osgoi derbyniad diangen i'r ysbyty, ond rydym yn gwneud mwy gyda'n clystyrau Gofal Sylfaenol i sicrhau ein bod yn galluogi mwy o bobl i dderbyn gofal mewn modd wedi'i gynllunio, yn arbennig o ran pobl sydd â chyflyrau hirdymor.

   Rydym yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid awdurdod lleol i sicrhau bod un pwynt mynediad ar gyfer y bobl hynny sydd angen cefnogaeth, gan ei gwneud hi'n llawer haws i bobl gael y gefnogaeth gywir.

   Rydym wedi gwella ein gwasanaethau i gleifion sy'n mynd i'r ysbyty mewn argyfwng ac mae gennym gynlluniau ar waith i wella ymhellach sut yr ydym yn perfformio yn y maes hwn. Yn allweddol i hyn mae'r cynlluniau i leihau pa mor hir mae pobl yn aros yn yr ysbyty ar ôl cael eu derbyn ar frys. Pan fyddwn yn cymharu ein hunain â sefydliadau eraill, rydym yn aml yn cadw pobl yn yr ysbyty yn rhy hir, weithiau oherwydd y gall gymryd yn rhy hir i drefnu'r gofal a'r gefnogaeth sydd eu hangen i gael rhywun adref yn ddiogel, neu nad oes gennym y gefnogaeth iawn ar gael yn y gymuned. Mae ein cynlluniau'n cymryd y camau nesaf i fynd i'r afael â hyn.



Ein Blaenoriaethau ar gyfer (parhad)

2. **Gweithredu ein model o ofal yn y gymdogaeth:**

   Gwyddom nad oes gennym y gwasanaethau cywir ar gael i gefnogi pobl yn y gymuned a gwyddom hefyd bod llawer o wasanaethau ar gael ar draws ein cymunedau - a ddarperir drwy'r sector gwirfoddol a'r trydydd sector, a phartneriaid eraill - sy'n gallu darparu cefnogaeth i bobl, ond yn aml nid yw gwybodaeth am a mynediad at y gwasanaethau hyn yn glir. Rydym felly'n gweithio gyda'n clystyrau gofal sylfaenol (grwpiau o bractisau meddygon teulu sy'n gweithio gyda'i gilydd) a phartneriaid awdurdod lleol wella mynediad at ystod ehangach o wasanaethau, gan alluogi pobl i barhau'n fwy annibynnol. Mae'r gwaith hwn hefyd yn cynnwys cynlluniau i sicrhau bod ein gwasanaethau meddygon teulu yn parhau'n gynaliadwy o gofio'r sefyllfa o brinder meddygon teulu, a'n bod yn gwneud y defnydd gorau o'n holl wasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol - yn cynnwys deintyddion, optegwyr a fferyllwyr, nyrsys a therapyddion cymunedol, a gwirfoddolwyr.

3. **Gwell gofal wedi'i gynllunio:**

   Rydym wedi gwneud cynnydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf mewn lleihau'r amser ar gyfer cael mynediad at ofal arferol wedi'i gynllunio a gofal canser. Fodd bynnag, mewn rhai meysydd, mae'r galw am ein gwasanaethau yn fwy na'r gallu sydd ar gael gennym. Rydym felly'n parhau i weithredu cynlluniau i sicrhau bod pob llwybr claf mor llyfn â phosibl, fel nad ydym yn dod â chleifion yn ôl ar gyfer sesiynau dilyn i fyny dro ar ôl tro os nad oes eu hangen a'n bod, pan fo pobl angen cefnogaeth neu driniaeth barhaus, yn gwneud hyn mewn modd amserol a'n bod yn fwy ymatebol i asesiad y claf ei hun o'i anghenion gofal.

   Rydym hefyd eisiau sicrhau ein bod yn cael y canlyniadau gorau oll i gleifion o'r driniaeth yr ydym yn ei darparu ac rydym yn rhoi cynlluniau ar waith i gyflawni hyn, gan edrych ar orthopedeg ac offthalmoleg i ddechrau.



Gweithredu Penodol ar gyfer 2017/18

Atal salwch a hybu ffyrdd o fyw iach - newidiadau mewn ymddygiad ffordd o fyw er mwyn galluogi pobl i wneud dewisiadau gwybodus am ffyrdd o fyw iach a'u bod yn gallu rheoli'n well eu cyflyrau'n ddiogel, gan atal dirywiad lle bo hynny'n bosibl.

Gwyddom mai'r gwelliannau mwyaf y gallem eu gwneud i iechyd ein poblogaeth leol fyddai i weithio gyda phartneriaid i leihau ymhellach ysmygu, sy'n dal i gyfrannu at farwolaethau cynamserol o ganser a chlefydau cardiofasgwlaidd.

Gwyddom hefyd ein bod yn gweld cynnydd mewn salwch cysylltiedig â gordewdra, gydag achosion o ddiabetes a chyflyrau cyhyrsgerbydol yn cynyddu.

Rydym hefyd yn gweld cynnydd yn nifer y bobl sydd angen cefnogaeth oherwydd salwch meddwl ac, oherwydd y cynnydd yn nifer y bobl hŷn sy'n byw yn ein cymunedau, rydym yn gweld mwy o bobl gyda dementia sydd angen diagnosis, gofal a chefnogaeth amserol.

Mae ein cynlluniau ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys:

- Datblygu gwasanaethau atal mwy cydgysylltiedig gan ganolbwyntio'n gryf ar ddefnydd tybaco, bwyd a gweithgaredd corfforol ac imiwneiddio;
- Ehangu gwasanaethau megis Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol i gynyddu argaeledd prydau o ansawdd da, sgiliau maeth ac addysg chwaraeon i blant a phobl ifanc sy'n byw mewn ardal o amddifadedd cymdeithasol;
- Gwella defnydd o Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif yn ein cymunedau, ar draws asiantaethau;
- Datblygu ymhellach ein gwasanaethau sy'n cefnogi pobl ifanc i gael gwell iechyd a lles emosiynol;
- Gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a'n partneriaid yn y Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus i sicrhau bod pobl ifanc yn cael dechrau da mewn bywyd, gan wybod y gall profiadau anffafriol mewn blynyddoedd cynnar gael effaith sy'n para'n hir i fywyd fel oedolyn;
- Cyflwyno hyfforddiant gofal dementia fel bod staff yn gallu cefnogi cleifion a'u teuluoedd yn well, a bod ein gwasanaethau'n cefnogi pobl i barhau i fyw'n ddiogel yn eu cartrefi cyhyd â phosibl; a
- Chefnogi lles ein 14,000 o staff, gan annog ffyrdd o fyw iach a datblygu ein cynlluniau teithio cynaliadwy.




Gofal Heb ei Gynllunio Cynaliadwy – sicrhau bod ein cleifion yn derbyn y gofal cywir ar yr adeg gywir yn y lle cywir mewn argyfwng neu pan fo angen brys.

Nod ein cynlluniau yw:

- Lleihau derbyniadau brys ysbyty y gellir eu hosgoi;
- Lleihau hyd arhosiad ar gyfer y rheini sy'n cael eu derbyn fel argyfwng; a
- Lleihau oedi mewn trosglwyddo gofal ar gyfer y rheini sy'n feddygol ffit i'w rhyddhau i ddychwelyd 'adref' ar y cyfle cynharaf.

Cyn-ysbyty (i osgoi derbyniad)	• Gwasanaethau atal - cyfeirio at wasanaethau cefnogi lleol. • Gofal Sylfaenol Tu Allan i Oriau - gwell argaeledd meddygon teulu gyda'r hwyr a dros y penwythnos. • Gwasanaethau Clwstwr Meddygon Teulu/Nyrsys ar gyfer Pobl Hŷn - gan gydweithio gyda Thimau Adnoddau Cymunedol a Gwasanaeth Asesu Gofal yr Henoed i gefnogi cleifion yn eu cartrefi eu hunain. • Llwybrau Cyflyrau Sensitif Gofal Dydd - dull gofal sylfaenol safonedig ar gyfer rheoli wyth cyflwr yn y gymuned.
Gofal brys	• Mynediad uniongyrchol drwy Wasanaeth Ambiwlans Cymru - yn syth i adrannau penodol. • Gwasanaeth Gofal yr Henoed - model bregusrwydd i barhau'n hwy/dychwelyd yn gynharach i'w cartref 'arferol'. • Llwybrau Gofal Brys - gwella gwneud uwch benderfyniadau amserol, lleihau amseroedd aros wrth y drws ffrynt, lleihau dyblygu profion. • Rhyddhau dan arweiniad radiograffydd - rhyddhau ar adeg pelydr-x, os yw'r pelydr-x yn normal
Proses cleifion mewnol a rheoli rhyddhau	• Rheolaeth gwelyau i wella llif cleifion a defnydd cynyddol o ddyddiad rhyddhau a gynlluniwyd. • Modelau gofal newydd ar gyfer pobl hŷn bregus a chleifion sydd â dementia neu nam gwybyddol i sicrhau rhyddhau amserol o ofal ysbyty yn ôl adref, gyda gofal parhaus pan fo'i angen.
Llwybrau cymunedol	• Gweithio gydag awdurdodau lleol a'r trydydd sector i sefydlu gwasanaethau a gefnogir yn y gymuned. • Gwasanaeth integredig ar gyfer pobl hŷn fel bod pobl yn cael y canlyniadau y maent am eu cael, a bod gofal yn cael ei ddarparu'n ddi-dor ar draws meysydd iechyd, gofal cymdeithasol a thai.



Gofal Wedi'i Gynllunio Cynaliadwy – darparu gwasanaethau mwy cynaliadwy wedi'u tanategu gan ffocws ar atal, hunanofal a'r egwyddor 'gartref yn gyntaf' a gofal iechyd darbodus.


Nod ein cynlluniau yw:

- Datblygu llwybrau newydd ar gyfer gofal llygad - cataractau, retina meddygol a phlastigau llygadol a cyhyrsgerbydol (problemau cyhyrau a chymalau);
- Lleihau hyd arhosiad, yn arbennig mewn arbenigeddau Clust, Trwyn a Gwddf (ENT) ac Orthopedeg;
- Lleihau nifer yr apwyntiadau cleifion allanol sy'n cael eu gwastraffu oherwydd nad yw pobl yn mynychu; a
- Cynyddu nifer y llawdriniaethau a gynhelir fel llawfeddygaeth ddydd neu leihau'r amser y mae pobl yn aros yn yr ysbyty wedi llawdriniaeth.


Darparu dewisiadau amgen i ofal eilaidd	• Tele-dermatoleg - ym mhob practis meddygon teulu; gwella mynediad lleol at gyngor clinigol. • Gwasanaeth wro-gyncoleg allgymorth; yn cynnwys ffisiotherapi a gwasanaethau a arweinir gan nyrsys. • Clinigau gynacoleg allgymorth; gweithio'n agosach gyda meddygon teulu. • Pigiadau rhiwmatoleg a arweinir gan therapi. • Awdioleg; gwell defnydd o glinigau cymunedol pediatrig ac oedolion. • Cyhyrsgerbydol; un llwybr - un pwynt mynediad ar gyfer pob atgyfeiriad ysgwydd, pen-glin a meingefn o ofal sylfaenol.
Ailgynllunio llwybr wedi'i strwythuro	• Cefnogaeth meddygon teulu i ailgynllunio llwybr; llwybrau gofal newydd ym meysydd wroleg, dermatoleg a gastroenteroleg. • Ehangu Clinigau a arweinir yn Anfeddygol; llwybrau gofal newydd ym meysydd ENT ac Offthalmoleg yn cynnwys gwasanaethau a arweinir gan Nyrs ac Optometreg.
Moderneiddio Trefnu Apwyntiadau Cleifion Allanol BIP Cyfan	• Defnydd estynedig o'r system Trefnu Apwyntiadau Cwbl Awtomataidd ar gyfer apwyntiadau cleifion allanol newydd; datblygu system trefnu apwyntiadau dilyn i fyny awtomataidd; cyflwyno negeseuon testun atgoffa.
E-gyngor BIP cyfan	• Parhau i gyflwyno ar draws meysydd atgyfeirio uchel yn cynnwys cardioleg, offthalmoleg, rhiwmatoleg, anadlol, gastroleg a gwasanaethau iechyd plant.
Atgyfeirio electronig BIP cyfan	• lCyflwyno, galluogi pob meddyg teulu i atgyfeirio'n uniongyrchol i ofal eilaidd.
Cynhyrchiant Theatr	• Gwneud y defnydd gorau posibl o arferion amserlennu ac archebu - maes allweddol endosgopi.
Dilysu Rhestrau aros Clinigol a Chlerigol	• Sicrhau mai dim ond y rheini sydd angen triniaeth sydd ar y rhestrau aros
Timau Adnoddau Cymunedol	• PRhyddhau cynlluniedig wedi'i hwyluso saith diwrnod yr wythnos
Tîm Ymateb Aciwt - gofal wedi'i leoli mewn eiddo	• Alinio gwasanaethau i glinigau cymunedol

Ein Blaenoriaethau ar gyfer Gwella Ansawdd ein Gwasanaethau a Phrofiad Cleifion

Rydym wedi datblygu Fframwaith Ansawdd, Diogelwch a Gwella ar gyfer 2017/18 sy'n nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y tair blynedd nesaf. Ein nod yw bod yn un o'r sefydliadau mwyaf diogel yn y GIG sy'n darparu gofal o ansawdd uchel a di-dor lle bydd pobl yn cael profiad gwych bob tro y byddant yn defnyddio ein gwasanaethau. Mae gennym gynllun manwl yn ei le i wneud rhagor o gynnydd dros y 12 mis nesaf gyda'r chwe nod yr ydym wedi eu gosod, sy'n seiliedig ar ein hegwyddorion tanategol.



Cydnabyddir nad oes un dull penodol ar gyfer adborth defnyddwyr gwasanaeth a all roi'r sicrwydd sydd ei angen ar Fyrddau Iechyd, a bod angen nifer o ddulliau ar gyfer triongli i wirio canfyddiadau a gwneud gwelliannau. Dros y tair blynedd nesaf, ein nod yw creu a datblygu ystod o ddulliau i gael adborth sy'n adlewyrchu amrywiaeth ein defnyddwyr gwasanaeth.




Ein Blaenoriaethau Gweithlu a Sefydliadol

Rydym yn cyflogi dros 14,000 aelod staff ar draws ein sefydliad mewn dros 100 o wahanol rolau. Mae ein cynllun gweithlu yn nodi sut y byddwn yn sicrhau bod ein staff yn cael eu cefnogi i wneud y gwaith gorau y gallant, a bod gennym y bobl gywir yn y swyddi. Mae gennym bum maes blaenoriaeth a fwriedir i gefnogi ein dyheadau tymor hwy.

Gwella → *Sefydlu* → *Uwch* → *Arfer Blaenllaw*

Mae sicrhau bod gennym y gweithlu cywir i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen, a'n bod yn gallu datblygu'r gweithlu wrth i'r ffordd yr ydym yn darparu gofal newid yn allweddol i lwyddiant ein cynllun.

Gweithlu effeithlon – cyflawni dangosyddion perfformiad allweddol gweithlu targed	
• Presenoldeb • Gallu gweithlu • Cadw • Recriwtio amserol • Atebolrwydd am berfformiad • Optimeiddio sesiynau gweithlu meddygol • Cysylltiadau gweithwyr	• Lleihau gwariant ar asiantau dros dro a gweithwyr locwm. • Parhau i leihau absenoldeb oherwydd salwch. • Hyrwyddo lles staff.
Gweithlu cynaliadwy – sicrhau bod y bobl gywir, yn y rolau cywir, yn y lle cywir, ar yr amser cywir	
• Anghenion cyflenwi gweithlu yn y dyfodol • Gallu a chostau gweithlu nyrsio • Gallu gweithlu meddygol • Gallu talent rheoli • Cynllunio olyniaeth	• Cyflawni Prosiect 95% (sefydlu Band 5/6) a chynnal Prosiect Switchover (defnydd asiantaeth contract). • Parhau i gyflawni strategaeth Menter Hyfforddiant Meddygol (MTI). • Lleihau gweithwyr locwm asiantaeth hirdymor a recriwtio ar gyfer swyddi anodd eu llenwi. • Datblygu cynllunio olyniaeth ar gyfer swyddi uwch reoli.



Gweithlu abl – bodloni anghenion o ran sgiliau dysgu ac arweinyddiaeth drwy ddarparu hyfforddiant o ansawdd a datblygiad	
• Sgiliau gorfodol • Rheoli perfformiad a datblygu talent • Gallu arweinyddiaeth • Gallu nyrsio • Gallu nyrsio anghofrestredig • Hyfforddi • Mentora	• Datblygu dull clir ac un a rennir ar gyfer gweithgaredd newid a thrawsnewid. • Meithrin gallu a galluedd ar draws y BIP ym meysydd newid strwythurol, proses, ymddygiadol a diwylliannol. • Bod â dull cydlynol a chyson yn ein methodolegau drwy fod timau newid yn cydweithio'n effeithiol. • Defnyddio sgiliau a chefnogaeth allanol, gyda phwyslais ar ddatblygu i adeiladu ein sgiliau mewnol. • Integreiddio data perfformio ac ariannol cadarn i hybu a chefnogi dealltwriaeth o'r angen a manteision newid a sicrhau bod pob gweithgaredd newid wedi'i alinio a'i flaenoriaethu yn unol â'r nodau strategol.
Trawsnewid y gweithlu – galluogi ansawdd, cynhyrchiant a gwelliant parhaus	
• Trawsnewidiad • Gwelliant Gwasanaeth Parhaus • Academi Caerdydd a'r Fro • Gwella Cofnod Staff Electronig • Trawsnewid Gwasanaethau Canser • Gweithlu Gofal Sylfaenol wedi'i gynllunio • Cynllun De Cymru	• Ailgynllunio a moderneiddio swyddogaeth i gefnogi newid mewn gwasanaeth e.e. Gofal wedi'i Gynllunio a Heb ei Gynllunio. • Trawsnewid gweithlu sy'n cael effaith ledled y BIP e.e. newidiadau gwasanaeth clinigol rhanbarthol. • Moderneiddio wedi'i ysgogi o fewn grwpiau staff Proffesiynol e.e. gweithwyr cyswllt Ffisegwyr, uwch ymarfer. • Cynllunio siâp y gweithlu i'r dyfodol a'r offer a galluogwyr i sicrhau ein bod yn cyflawni ein nod.
Gweithlu ymgysylltiedig – creu amodau sy'n rhyddhau potensial o ran gallu ac ymrwymiad i'r nodau a'r gwerthoedd	
• Iechyd a Lles • Cydraddoldeb ac Amrywiaeth • Y Gymraeg • Ymgysylltiad Staff • Gwerthoedd ac Ymddygiadau • Gwobrau a Chydnabyddiaeth	• Adeiladu ar y rhaglen gynhwysfawr o waith ymgysylltu sydd ar waith gyda staff, gan ganolbwyntio ar iechyd a lles, gwerthoedd ac ymddygiadau, gwobrau a chydnabyddiaeth.

Ein Blaenoriaethau Ymchwil a Datblygu

Mae'r BIP yn rhannu ac wedi ymgysylltu'n llawn â dyheadau Ymchwil a Datblygu Llywodraeth Cymru i ddod a budd i gleifion a'r economi yng Nghymru drwy gynyddu gweithgaredd Ymchwil a Datblygu. Trwy ein hamcanion strategol, disgrifiom ddyhead am "amgylchedd lle mae arloesedd yn ffynnu". Yn ystod 2015 cymeradwyodd y BIP gynllun Ymchwil a Datblygu 3 blynedd; adolygwyd, newidiwyd a chymeradwywyd hwn gan Fwrdd Gweithredol y BIP ym mis Medi 2016. Mae wedi ei alinio i themâu strategol y BIP, a'i nodau yw:

Ar gyfer ein Poblogaeth:	• Gwella iechyd a lles cleifion a'r boblogaeth ehangach drwy hyrwyddo a chefnogi trosi arloesedd ac ymchwil er mwyn deall yn well glefydau ac ymddygiadau dynol; a gwell triniaethau, darpariaeth gofal iechyd a rhaglenni atal.
Ein Blaenoriaethau Gwasanaeth:	• Meithrin gallu ymchwil ac alinio'n strategol ymchwil a chynllunio a chyflenwi gwasanaeth; • Cynorthwyo Byrddau Clinigol a Chyfarwyddiaethau unigol gyda'u strategaethau Ymchwil a Datblygu eu hunain ac o ran eu cyflenwi; • Gwella gallu'r Cyfleuster Ymchwil Clinigol i gynnal astudiaethau arbenigol cymhleth e.e. Cardiaidd, Offthalmoleg, Gastrienoleg, gwella clwyfau ac ati; a • Datblygu Cyfleuster Ymchwil Clinigol Pediatreg ar gyfer Cymru.
Cynaliadwyedd:	• Cydymffurfio â metrics Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru /Llywodraeth Cymru yn cynnwys defnydd o'i ddyraniad Cyllido Seiliedig ar Weithgaredd ar gyfer cyflawni ymchwil; • Meithrin gweithlu medrus sy'n gallu datblygu ymchwil amlddisgyblaeth o ansawdd uchel sydd wedi'i ganoli ar y boblogaeth ac ar bobl ac sy'n arwain at welliannau o ansawdd mewn gofal iechyd ac iechyd cyhoeddus; • Cynyddu incwm masnachol o'i lefel bresennol o ~ £1 miliwn y flwyddyn tuag at gyfartaledd y DU ar gyfer BIP o £6 miliwn dros y 5 mlynedd nesaf gyda'r nod o gynyddu gallu ymchwil; • Cyfrannu at ffyniant economaidd, drwy ddatblygu'r partneriaethau presennol a phartneriaethau newydd gyda diwydiant yn y sectorau fferyllol a thechnegol i dyfu'r portffolio ymchwil masnachol; a • Sicrhau diogelwch cleifion drwy gydymffurfio â'r holl ofynion Rheoleiddio a Llywodraethu Clinigol.
Diwylliant:	• Creu diwylliant ac amgylchedd ymchwil i ddatblygu a chynnal enw da'r BIP am ragoriaeth ymchwil mewn meddygaeth glinigol a throsiannol; ac • Ychwanegu gwerth a gwella effeithiau drwy greu synergeddau newydd rhwng y BIP a Sefydliadau Addysg Uwch, yn arbennig Prifysgol Caerdydd, gyda'r nod o gynyddu datblygiad arloesol gydag elwa masnachol bosibl.



Ein Cynlluniau Ariannol

Perfformiad Ariannol yn 2016/17

Yn 2014/15, o dan Ddeddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2014, diwygiodd Llywodraeth Cymru y dyletswyddau perfformiad ariannol sy'n berthnasol i Fyrddau Iechyd. Mae dwy ddyletswydd ariannol nawr yn berthnasol:

1. Y ddyletswydd i sicrhau bod ein gwariant ddim yn mynd y tu hwnt i gyfanswm y cyllid a ddyrennir i ni dros gyfnod o dair blwyddyn ariannol (adran 175 (1));
2. Y ddyletswydd i baratoi, a chael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer cynllun sy'n cyflawni'r amcan uchod tra'n gwella iechyd a darpariaeth gwasanaethau iechyd ar gyfer y boblogaeth yr ydym yn gyfrifol amdani (adran 175 (2a)).

Cwblhawyd yr asesiad cyntaf o berfformiad yn erbyn y ddyletswydd statudol tair blynedd ar ddiwedd 2016/17.

- Gorwariodd y Bwrdd Iechyd gan £29.243 miliwn yn erbyn yr adnoddau a ddyrannwyd iddo yn 2016/17. Roedd hyn yn rhan o ddiffyg cronedig gwerth £50.539 miliwn dros y cyfnod tair blynedd. Felly, ni wnaeth y BIP gyflawni ei ddyletswydd statudol o dan adran 175 (1).
- Ni chymeradwywyd Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd ar gyfer y cyfnod 2016/17-2018/19 gan Weinidogion Cymru ac felly ni chyflawnodd ei ddyletswydd statudol o dan adran 175 (2a).

Er bod y Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i gyflawni sefyllfa ariannol diwedd blwyddyn is na'r diffyg £30.9 miliwn a gytunwyd gan Lywodraeth Cymru, torrodd y ddwy ran o'i ddyletswydd ariannol statudol.



Cynllun Ariannol ar gyfer 2017/18

Ystyriodd y BIP ei Gynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2017/18 – 2019/20 yn ei gyfarfod Bwrdd ar 30 Mawrth 2017. Ar y pwynt hwn, o gofio maint y diffyg a ragwelwyd ar gyfer 2017/18 (£45.9 miliwn), nid oedd y BIP mewn sefyllfa i'w gymeradwyo. Fe wnaeth, fodd bynnag, gefnogi ei fabwysiadau, gan gydnabod bod angen rhagor o waith.

Ail-ystyriodd y BIP y Cynllun yn ei gyfarfod Bwrdd ar 25 Mai 2017, lle cytunwyd i weithio tuag at darged ymestyn i gyflawni sefyllfa ddim gwaeth na £30.9 miliwn (gan mai dyma oedd y sefyllfa rhagamcanedig a gytunwyd gyda Llywodraeth Cymru yn 2016/17).

Mae maint yr her i gyflawni sefyllfa ddiffyg o £30.9 miliwn yn 2017/18 yn sylweddol. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r BIP reoli nifer o risgiau ariannol. Y risgiau allweddol yw:


- Cyflawni'r cynllun diffyg £45.9 miliwn gwreiddiol a oedd yn gofyn am arbedion gwerth £20 miliwn. Hyd yma mae'r BIP wedi gwneud cynnydd ac wedi nodi cynlluniau gwerth £17.7 miliwn a luniwyd yn erbyn y targed hwn.
- Cyflawni'r targed ymestyn (diffyg £30.9 miliwn) sy'n gofyn am £15 miliwn yn rhagor o arbedion. Mae gwaith ar y gweill i ganfod opsiynau i gyflawni hyn.

Mae'r BIP yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni cynaliadwyedd ariannol hirdymor.



Siapio Gwasanaethau i'r Dyfodol

Rydym yn datblygu cynlluniau i sicrhau bod gennym y seilwaith cywir yn ei le i ddarparu'r gofal a ddisgrifir yn ein strategaeth.



Rydym wedi datblygu ein model gofal ar gyfer pob lefel gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu i'n poblogaeth leol, a phoblogaeth De Cymru yr ydym yn darparu gwasanaethau arbenigol iddynt.



Gan weithio gyda'n trigolion lleol a gweithwyr iechyd proffesiynol gwelir nifer o themâu cyson o ran sut y byddent am i wasanaethau fod yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Helpu pobl i aros yn iach ac annibynnol cyhyd â phosibl.
- Diagnosis cynnar o glefydau a derbyn y driniaeth orau sydd ar gael, lle bynnag y mae'r unigolyn yn byw.
- Gofal cydgysylltiedig a hwylus, mor agos i'r cartref neu'r gwaith â phosibl.

Gan weithio gyda'n partneriaid rydym wedi defnyddio dull model gwasanaeth system gyfan i roi dealltwriaeth gyffredin o sut y caiff gwasanaethau ar draws maes iechyd a gofal cymdeithasol eu cyflenwi a sut mae angen iddynt newid. Ein nod yw meithrin model iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cyfateb yn well i anghenion a gwasanaethau lleol, sy'n canolbwyntio ar les ac sydd wedi'i seilio ar fanyleb a gyd-gynhyrchwyd ar gyfer 'Cymdogaeth Berffaith'. Gellir gweld mwy o wybodaeth ar ein tudalen we [Siapio ein Lles i'r Dyfodol: Rhaglen yn ein Cymuned]


Byddwn hefyd yn datblygu ein cynlluniau ar gyfer sut yr ydym yn datblygu'r gwasanaethau arbenigol yr ydym yn eu darparu ar gyfer trigolion ledled De Cymru.

Gofal a chefnogaeth a ddarperir - y Gymdogaeth Berffaith

Yn ystod 2016/17 gwnaethom weithio gydag ystod eang o bartneriaid i ddatblygu ein manyleb ar gyfer 'cymdogaeth berffaith' - rhwydwaith o wasanaethau integredig sy'n cefnogi pobl i fyw'n ddiogel yn eu cartrefi, gyda'r gofal a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt wedi'u darparu'n lleol gan wasanaethau cynaliadwy a gyflenwir gan ystod o wahanol ddarparwyr. Yn ystod y flwyddyn hon byddwn yn cymryd y camau nesaf i weithredu'r model gwasanaethau hwn.

Rydym nawr yn rhoi ein manyleb ar gyfer cymdogaeth berffaith ar waith. Mae ein cynlluniau'n cynnwys:

- Gweithio'n wahanol mewn gofal sylfaenol, yn cynnwys gweithio ar draws cymdogaethau a chlystyrau.
- Symud yr agenda integreiddio yn ei blaen gan weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr awdurdod lleol a thrydydd sector ar fodel newydd o ofal cymunedol, fel bob pobl sydd angen gofal a chefnogaeth gan wahanol sefydliadau yn derbyn gofal di-dor.
- Cynllunio ar gyfer rolau newydd mewn gofal sylfaenol ac yn y gymuned fel y gallwn barhau i gynyddu maint y gofal a chefnogaeth a ddarperir yn agos i adref a thu allan i'n hysbytai aciwt.
- Cryfhau ein gwasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned ar gyfer plant a phobl ifanc, oedolion oed gweithio a phobl hŷn, gan adeiladu ar y modelau gofal llwyddiannus sydd eisoes ar waith. Rydym yn datblygu gwasanaethau i adlewyrchu adborth gan y rheini sy'n defnyddio ein gwasanaethau a'u gofalwyr. Mae'r modelau gofal hyn yn adlewyrchu symudiad yng nghydbwysedd gofal, o ofal cleifion mewnol mewn ysbyty i ofal cymunedol yn nes at adref.



Gweithio gyda'n gilydd - Cydweithredu Rhanbarthol

Yn ystod 2016/17 rydym wedi bod yn gweithio gyda'r byrddau iechyd yn Ne Ddwyrain Cymru i weithredu'r newidiadau a argymhellwyd gan Raglen De Cymru. Mae modelau gofal newydd wedi'u cwblhau ym meysydd pediatreg, obstetreg, gwasanaethau newydd-anedig a meddygaeth frys a chaiff y cynlluniau eu gweithredu dros y flwyddyn nesaf. Er mwyn darparu'r gwasanaethau newydd-anedig ac obstetreg, mae angen newidiadau i'r cyfleusterau mewn nifer o'r ysbytai yn Ne Ddwyrain Cymru. Rydym yn cynnal rhaglen datblygu cyfalaf fawr i ehangu'n sylweddol ein gwasanaeth newydd-anedig a fydd yn cael ei chwblhau yn 2018, a fydd yn ein galluogi ni i ofalu am fwy o fabanod ar draws y rhanbarth, fel y cynlluniwyd.

Rydym hefyd yn cwblhau cynlluniau i ddarparu gwasanaethau ENT (tu allan i oriau yn arbennig) a gwasanaethau fasgwlaidd yn rhanbarthol fel bod cleifion yn derbyn y gofal cywir, ar yr adeg gywir, wedi'u darparu gan y gweithwyr proffesiynol cywir ac yn y man cywir.

Rydym hefyd yn cryfhau'r ffordd yr ydym yn cynllunio gwasanaethau yn rhanbarthol a byddwn yn gweithio gyda'r byrddau iechyd yn Ne Ddwyrain Cymru i ddatblygu cynlluniau ar gyfer gwasanaethau cynaliadwy sicr ar gyfer gofal wedi'i gynllunio mewn perthynas â gwasanaethau orthopedig, offthalmoleg a diagnosteg. Mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn bartner pwysig yn y gwaith hwn, gan sicrhau bod cleifion yn cael eu cludo i'r man cywir.

Yn ystod 2017/18 byddwn yn parhau i weithio gydag Ymddiriedolaeth GIG Felindre i ddatblygu cynlluniau i wella canlyniadau canser. Mae hyn yn golygu gweithio'n agos gyda meddygon teulu i sicrhau bod canser yn cael ei ganfod yn gynnar, a bod pobl yn derbyn triniaeth mewn modd amserol, a phan fydd pobl sydd â chanser yn mynd yn ddifrifol wael eu bod yn cael mynediad at y gefnogaeth a'r gofal cywir yn gyflym.



Mae sut yr ydym yn trin canser yn newid gyda thriniaeth yn cael ei theilwra'n gynyddol i'r unigolyn. Rydym wedi cyfrannu at Strategaeth Genomeg ar gyfer Meddygaeth Fanwl Cymru Gyfan a byddwn yn chwarae rôl allweddol yn ystod y flwyddyn i ddatblygu ymhellach y gwasanaethau hyn, gyda buddsoddiad mewn technoleg newydd ac ehangiad labordai. Mae Meddygaeth Fanwl yn datblygu'n gyflym ac mae'n newid y ffordd yr ydym yn trin ystod eang o gyflyrau, gan ein galluogi i ganfod problemau yn llawer cynharach, a darparu rhaglenni triniaeth wedi'u personoli.

Gweithio gydag Eraill

Rydym hefyd wedi datblygu cydweithrediad newydd gyda'r ddau awdurdod lleol a Phrifysgol Caerdydd i gyflymu ffyrdd newydd o weithio.

HEART:
Health Enterprise Alliance for Regional Transformation

Cynghrair Menter Iechyd ar gyfer Trawsnewid Rhanbarthol (HEART) – gweithio ar y cyd, adeiladu ar gryfderau pob partner ac alinio ein hadnoddau'n well, gyda gweledigaeth ar gyfer arloesedd, integreiddiad ac iechyd a lles wedi'i ganolbwyntio ar y dinesydd.

Rydym yn gweithio'n agos gyda nifer o brifysgolion i addysgu'r genhedlaeth nesaf o glinigwyr, a chynnal ymchwil, arloesedd a datblygiad.


- Gweithio'n wahanol mewn gofal sylfaenol, yn cynnwys ar draws cymdogaethau a chlystyrau.
- Symud yr 'agenda integreiddio' yn ei blaen gan weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr awdurdod lleol a thrydydd sector ar fodel gofal cymunedol newydd.
- Cynllunio ar gyfer rolau newydd mewn gofal sylfaenol ac yn y gymuned.

Cytunodd y bartneriaeth ar naw amcan strategol mewn tri maes allweddol. Mae'r amcanion hyn yn ffurfio sail i "fodel system Caerdydd a'r Fro". Yn gryno, rydym yn canolbwyntio ar:

Gwasanaethau a arweinir gan y dinesydd drwy rwydweithiau cymunedol wedi'u cryfhau, cefnogaeth wedi'i galluogi gan dechnoleg a chydlynu ein cefnogaeth a'n hymateb i'n poblogaeth yn seiliedig ar ddwysedd yr angen.

Gweithio gyda'n gilydd yn fwy effeithiol i wneud y defnydd gorau o'r asedau, y gweithlu ac adnoddau eraill.

Ysgogi arloesedd i gyflymu'r broses o'r syniad i ateb y gellir ei weithredu, denu ffynonellau cyllid newydd a darparu mynediad cyflymach at ymchwil ar gyfer ein poblogaeth.



Casgliad

Bydd eleni yn parhau i fod yn flwyddyn heriol i ni a'n partneriaid ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Gan weithio gyda'n gilydd credwn y gallwn, drwy ganolbwyntio ein hymdrechion a'n hadnoddau ar ddarparu gwasanaethau mewn perthynas ag anghenion ein poblogaeth, ymateb i'r heriau presennol a wynebu'r rhai eraill sydd o'n blaenau.

Byddwn yn archwilio ffyrdd newydd o weithio gydag ystod eang o bartneriaid drwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fel y gallwn ymateb gyda'n gilydd i'r heriau a wynebir gan genedlaethau'r dyfodol, a chymhwyso gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y modd yr ydym yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

